Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Efail Isaf
# Neuadd Gymunedol Efail Isaf
# Heol Y Parc
# Pontypridd
# CF38 1AN

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 04/03/2015**

## Cyd-destun

Cylch chwarae cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Efail Isaf sydd wedi gwasanaethu ardal leol Efail Isaf yn Rhondda Cynon Taf er 2007.

Mae'r cylch chwarae wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 26 o blant ym mhob sesiwn ac fe gaiff plant eu derbyn yn ddwy oed.  Ar hyn o bryd, mae 18 o blant ar y gofrestr, gan gynnwys chwech o blant tair oed, ac mae pob un ohonynt yn cael addysg y blynyddoedd cynnar a ariennir.

Saesneg yw mamiaith mwyafrif o'r plant a daw lleiafrif o'r plant o gartrefi lle mae o leiaf un rhiant yn siarad Cymraeg.

Mae chwe aelod o staff amser llawn a dau aelod o staff rhan-amser, gan gynnwys rheolwr gweithredol a rheolwr ardal nad oes ganddi unrhyw gyfrifoldeb addysgu uniongyrchol.  Mae gan y rhan fwyaf o staff gymwysterau a phrofiad addas mewn gweithio gyda phlant ifanc.  Mae arweinydd y lleoliad wedi bod yn ei swydd er Ebrill 2014.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn Rhagfyr 2014.  Hwn yw'r tro cyntaf i'r lleoliad gael ei arolygu gan Estyn.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r lleoliad | Da |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol Cylch Meithrin Efail Isaf yn dda oherwydd:

- Mae plant yn mwynhau dod i'r lleoliad ac yn ymgynefino'n gyflym
- Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn ofalgar tuag atynt
- Mae plant yn gwneud cynnydd gwerthfawr yn eu medrau personol a chymdeithasol, sy'n eu paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg
- Mae'r lleoliad yn darparu ystod dda o brofiadau dysgu o ansawdd uchel ar gyfer y plant
- Mae pob un o'r ymarferwyr yn cymryd rhan yn dda iawn yn chwarae'r plant i'w helpu i ddysgu ac ymarfer medrau newydd

**Rhagolygon gwella**

Mae'r rhagolygon gwella ar gyfer Cylch Meithrin Efail Isaf yn dda oherwydd:

- Mae pob un o'r ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda fel tîm
- Mae ymarferwyr yn adnabod y lleoliad yn dda ac maent yn dangos ymrwymiad cryf i wella'n gyson
- Mae rheolwr gweithredol yn cefnogi'r lleoliad yn eithriadol o effeithiol
- Mae ystod ddefnyddiol o bartneriaethau yn cefnogi cynnydd a lles plant yn effeithiol
- Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da o hyfforddiant a chyngor i wella ansawdd y profiadau addysgu a dysgu y maent yn eu cynnig i blant

## Argymhellion

A1 Mireinio’r cynllunio i fodloni anghenion plant mwy abl a phlant sy’n siarad Cymraeg fel mamiaith

A2 Parhau i weithio tuag at ddarparu ardal awyr agored ddiogel a saff i hyrwyddo profiadau dysgu cyfoethog ar gyfer y plant a datblygu eu medrau corfforol

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd addas mewn dysgu o'r adeg maent yn dechrau yn y lleoliad. Yn benodol, mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd gwerthfawr yn eu medrau personol a chymdeithasol, sy'n eu paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Gall y rhan fwyaf o blant wrando ac ymateb yn llwyddiannus i gyfarwyddiadau syml sy'n cael eu rhoi yn Gymraeg. Er enghraifft, maent yn dilyn cyfarwyddiadau yn Gymraeg i roi adnoddau o'r neilltu pan fydd hi'n amser tacluso. Nid yw eu medrau siarad wedi'u datblygu cystal, er bod mwyafrif o blant sy'n siarad Cymraeg fel eu mamiaith yn cyfathrebu'n hyderus. Mae bron pob un o'r plant yn creu marciau yn hyderus mewn amrywiaeth o ffyrdd, er enghraifft pan fyddant yn tynnu llun mewn ewyn eillio. Gwnânt gynnydd da â'u medrau ysgrifennu cynnar. Mae lleiafrif ohonynt yn dechrau ysgrifennu at ddiben, fel ysgrifennu llythyr at Siôn Corn. Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau gwrando ar straeon ac yn dangos diddordeb mewn llyfrau; er enghraifft, maent yn mwynhau gwrando ar straeon am Elfed yr eliffant.

Gall y rhan fwyaf o blant gyfrif i ddeg yn Gymraeg a Saesneg. Gall lleiafrif ohonynt baru rhif a symbolau i bump o leiaf. Gall llawer ohonynt ddidoli a pharu yn hyderus. Mae eu hiaith fathemategol yn datblygu'n briodol, er enghraifft wrth wneud cacennau mawr a bach gyda thoes.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio ystod o offer bach gyda rhywfaint o reolaeth, fel peintio lluniau o'r eliffant yn eu llyfr stori neu ludo siapiau ar gartonau llaeth wedi'u hailgylchu i wneud modelau eliffant. Nid yw gallu'r plant i redeg, neidio a balansio wedi'i ddatblygu cystal.

**Lles: Da**

Mae pob un o'r plant yn mwynhau dod i'r lleoliad ac yn ymgynefino'n gyflym. Mae bron pob un ohonynt yn awyddus i gymryd rhan mewn gweithgareddau ac mae llawer ohonynt yn canolbwyntio am gyfnod da, er enghraifft wrth chwarae gêm paru lluniau o anifeiliaid. Maent yn dilyn rheolau ac arferion y lleoliad yn dda; er enghraifft, maent yn dal dwylo pan fyddant yn cerdded i'r coed.

Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda ac mae llawer ohonynt yn chwarae â'i gilydd yn hapus. Maent yn dechrau rhannu, cymryd eu tro ac arfer hunanreolaeth yn llwyddiannus. Mae llawer ohonynt yn dangos dyfalbarhad a phenderfyniad i gwblhau tasgau; er enghraifft, maent yn dyfalbarhau i gwblhau jig-sos ac yn pegio dillad ar y lein. Mae bron pob un o'r plant yn dangos gofal a pharch am yr adnoddau a ddefnyddir ganddynt ac yn helpu i dacluso gydag ychydig o anogaeth.

Yn ystod amser byrbryd, mae bron pob un o'r plant yn arllwys eu diodydd eu hunain yn annibynnol. Mae llawer ohonynt yn defnyddio cyllell a fforc yn fedrus i fwyta'u tatws ac yn dweud "diolch" gydag ychydig o anogaeth. Maent yn ymwybodol o'r angen am hylendid da trwy olchi eu dwylo cyn bwyta. Mae bron pob un o'r plant yn rhoi cynnig ar wisgo'u cotiau i fynd allan ac yn ceisio gwisgo esgidiau glaw gydag ychydig o gymorth.

Mae bron pob un o'r plant yn gwneud dewisiadau hyderus ac yn cymryd rhan yn bwrpasol yn eu chwarae yn gyflym.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae profiadau dysgu'n cynnig ystod werth chweil o gyfleoedd diddorol sy'n canolbwyntio'n dda yn gyffredinol ar ddiddordebau plant. Mae ymarferwyr yn cynllunio cwricwlwm eang a chytbwys a rhoddir pwyslais priodol ar chwarae a dysgu trwy brofiadau uniongyrchol; er enghraifft, mae plant yn didoli llysiau yn ôl eu lliw ac yn golchi a phegio dillad gwisgo i fyny ar y lein. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio bob amser yn adeiladu'n systematig ar fedrau, gwybodaeth a dealltwriaeth plant. O ganlyniad, nid yw gweithgareddau'n herio pob un o'r plant yn gyson nac yn ymestyn medrau iaith y plant sy'n siarad Cymraeg fel mamiaith.

Mae'r lleoliad yn rhoi cyfleoedd buddiol i blant ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo medrau siarad a gwrando plant yn dda trwy sesiynau stori, gweithgareddau canu ac amser cylch bob dydd. Mae plant yn dysgu adnabod eu henwau trwy hunangofrestru bob bore ac mae llyfrau a'r gair argraffedig yn hynod weladwy drwyddi draw. Rhoddir cyfleoedd addas i blant greu marciau, fel ysgrifennu rhestr yn y siop neu ysgrifennu llythyr at Siôn Corn.

Mae ymarferwyr yn annog medrau rhifedd plant yn dda trwy gyfleoedd rheolaidd i gyfrif, didoli a pharu gwrthrychau; er enghraifft, mae plant yn cyfrif dillad ar y lein ddillad a radisys yn y siop. Mae taith i ardal y coetir yn rhoi cyfle i blant atgyfnerthu eu medrau cyfrif trwy ddod o hyd i deganau anifeiliaid coll a chyfrif faint ohonynt y maent yn dod o hyd iddynt.

Caiff plant gyfleoedd priodol i ddysgu am fyw yng Nghymru a diwylliant Cymreig trwy ddathlu Dydd Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi. Mae bwrdd arddangos deniadol o symbolau Cymreig, lleoedd pwysig ac enwogion o Gymru yn cynyddu dealltwriaeth plant o fyw yng Nghymru ymhellach.

**Addysgu: Da**

Mae pob ymarferwr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda fel tîm i ddarparu amgylchedd dysgu ysgogol a chyffrous sy'n mynd ati i hyrwyddo ymglymiad, cyfranogiad a mwynhad plant. Maent yn annog plant yn weithredol i ddyfalbarhau a gwneud cynnydd yn eu dysgu. Maent wedi sefydlu arferion cryf sy'n sicrhau bod plant yn ymgynefino'n gyflym ac yn teimlo'n ddiogel a saff. Defnyddiant ganmoliaeth yn effeithiol i reoli ymddygiad plant mewn modd cadarnhaol, gan gyfrannu at awyrgylch hapus a phwrpasol.

Mae pob ymarferwr yn cynllunio a darparu cyfleoedd priodol i blant ddysgu trwy chwarae fel eu bod yn cael eu cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau ysgogol.  Maent yn cynnwys eu hunain yn dda yn chwarae'r plant i'w helpu i ddysgu ac ymarfer medrau newydd; er enghraifft, maent yn annog plant i ddilyn rhythm cân wrth ganu eu hofferynnau cerddorol.  Mae llawer o ymarferwyr yn fodelau rôl iaith effeithiol, sy'n helpu'r plant i ddatblygu eu medrau Cymraeg yn briodol.  Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, mae rhai ymarferwyr yn defnyddio patrymau Cymraeg anghywir.

Mae pob ymarferwr yn cymryd rhan mewn asesiadau rheolaidd a chynhwysfawr o ddysgu'r plant.  Mae gweithwyr allweddol yn cymryd cyfrifoldeb am grwpiau bach o blant yn effeithiol.  O ganlyniad, mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn hyderus eu bod yn gwneud cynnydd.  Maent yn rhannu gwybodaeth ddefnyddiol am ddatblygiad y plant yn rheolaidd gyda rhieni yn anffurfiol ac yn ystod boreau coffi bob tymor.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae gan y lleoliad drefniadau effeithiol i gefnogi iechyd a lles plant yn dda, ac annog plant i ofalu amdanynt eu hunain; er enghraifft, mae ymarferwyr yn annog plant i fwyta gyda chyllell a fforc, gwisgo'u cotiau a golchi eu dwylo cyn byrbryd.  Mae'r lleoliad yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.  Mae plant yn bwyta'n iach amser byrbryd ac yn yfed llaeth neu ddŵr.  Mae ymweliadau â'r cae chwarae, y cae a'r coetir yn annog gweithgarwch corfforol plant yn briodol.

Mae profiadau dysgu yn meithrin profiadau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant mewn modd cadarnhaol.  Mae arferion dyddiol, fel amser byrbryd, yn rhoi cyfleoedd gwerth chweil i blant ddatblygu medrau cymdeithasol pwysig fel eistedd wrth y bwrdd a sgwrsio gyda ffrindiau, cydweithio ac annibyniaeth.  Mae dathlu gwyliau fel Hanukah, Sukkot a'r Flwyddyn Newydd Dsieineaidd, yn helpu plant i gael dealltwriaeth well o'r byd y maent yn byw ynddo.  Mae ymarferwyr yn annog gwerthoedd pwysig fel tegwch, parch a synnwyr o dda a drwg yn llwyddiannus.  Er enghraifft, mae ymarferwyr yn annog plant i gymryd cyfrifoldeb am ofalu am adnoddau a thacluso, cymryd eu tro a gofalu am ei gilydd.  Mae trefniadau priodol ar waith i blant ddysgu am bwysigrwydd ailgylchu deunyddiau a chompostio bwyd nad oes ei eisiau.

Mae'r lleoliad wedi rhoi prosesau addas ar waith i gynorthwyo plant ag anghenion dysgu ychwanegol.  Mae ymarferwyr yn manteisio ar gymorth proffesiynol priodol ar gyfer plant a'u teuluoedd os bydd angen ac yn defnyddio'r cymorth hwn i gynorthwyo anghenion penodol plant yn dda.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu:  Digonol**

Mae'r lleoliad yn gymuned ofalgar a chefnogol lle mae ymarferwyr yn trin pob un o'r plant yn deg ac yn eu hannog i drin ei gilydd yn yr un ffordd.  O ganlyniad, mae plant yn hapus iawn yng nghwmni ei gilydd ac yn barod iawn i helpu eu ffrindiau, oedolion ac ymwelwyr.

Ceir cyflenwad digonol o adnoddau o ansawdd da sy'n briodol i oedran i gyflwyno cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Mae'r adeilad yn ddiogel ac yn cael ei gynnal yn dda.

Mae ymarferwyr yn gweithio'n eithriadol o galed i greu amgylchedd dysgu cyffrous dan do. Maent yn gosod a chlirio ystod eang o adnoddau bob dydd i gefnogi pob un o feysydd y cwricwlwm yn dda. Mae ymarferwyr yn defnyddio sgriniau cartref a sgriniau a brynwyd i rannu a diffinio parthau dysgu. Mae adnoddau ar gael yn hawdd a rhoddir ffocws priodol ar eiriau a rhifau mewn arddangosfeydd. O ganlyniad, mae plant yn brysur ac yn ymgysylltu'n bwrpasol ar y cyfan. Mae tair ardal chwarae rôl yn annog chwarae dychmygus yn dda tra bod y gornel lyfrau dan ganopi yn annog plant i ddangos diddordeb mewn llyfrau.

Mae'r amgylchedd dysgu yn yr awyr agored yn cynnwys ardal fach iawn benodedig i ffwrdd o faes parcio'r Neuadd Bentref, sy'n agos at faes chwarae bach, cae ac ardal goediog. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da o'r gofod sydd ganddynt ac mae ymweliadau achlysurol â'r cae a'r coetir yn ychwanegu at hyn. Fodd bynnag, mae'r diffyg lle cyffredinol ar y safle yn cyfyngu ar yr hyn y gall y lleoliad ei ddarparu bob dydd. Mae'r ardal yn rhy fach i allu gwneud defnydd rheolaidd o deganau ag olwynion neu weithgareddau sy'n gorfforol heriol. Mae'r lleoliad yn ceisio gwneud iawn am hyn trwy gynnal gweithgareddau corfforol wythnosol dan do ond nid yw'r rhain yn cael eu cynnal yn ddigon aml i gael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad corfforol y plant. Mae ymarferwyr yn goruchwylio'r ardal hon yn dda ac fe gaiff niferoedd y plant sy'n defnyddio'r ardal eu cyfyngu am resymau diogelwch. Fodd bynnag, nid yw'r ardal hon yn gwbl ddiogel a saff.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinydd y lleoliad a'i dirprwy wedi bod yn eu swyddi er Medi 2014. Yn y cyfnod hwn, maent wedi sefydlu perthnasoedd gweithio cryf ac ethos gofalgar iawn yn y lleoliad. Maent yn rhannu cyfrifoldebau ar gyfer cynnal y grŵp yn effeithiol o ddydd i ddydd ac maent wedi ffurfio perthnasoedd cadarnhaol gyda rhieni a gofalwyr. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel, ac maent yn cefnogi a herio pob un o'r ymarferwyr yn weithredol i wneud eu gorau, gan osod esiampl dda iawn. Gyda'i gilydd, maent yn rhoi pwyslais cryf ar gyflawni'r deilliannau gorau ar gyfer y plant yn y lleoliad.

Mae'r arweinydd wedi datblygu perthynas weithio adeiladol gyda phwyllgor y neuadd, gan arwain at brofiadau gwell ar gyfer y plant. Mae'n hysbysu'r pwyllgor rheoli yn dda am gynnydd y lleoliad. Mae hyn yn cyfrannu at ymdeimlad cryf o gymuned yn y grŵp.

Mae rheolwr gweithredol yn goruchwylio gwaith y lleoliad yn eithriadol o effeithiol. Er enghraifft, mae'n sicrhau bod gweithdrefnau rheoli perfformiad gwerth chweil ar waith a bod pob ymarferwr yn cael hyfforddiant priodol. Mae hi hefyd yn darparu parhad a chymorth gwerthfawr ar gyfer y pwyllgor rheoli, gan sicrhau bod pob un o'r polisïau a'r gweithdrefnau ar waith. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn gweithio'n effeithlon ac fe geir safon uchel o ofal i blant.

Mae arweinwyr y lleoliad yn rhoi blaenoriaethau cenedlaethol ar waith, fel bwyta'n iach, yn llwyddiannus ac maent yn rhoi ystyriaeth dda i'r fframwaith llythrennedd a rhifedd yn eu cynlluniau gwella.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae arweinwyr yn adnabod y lleoliad yn dda ac yn dangos ymrwymiad cryf i welliant cyson. Mae pob ymarferwr yn myfyrio'n rheolaidd ar y ddarpariaeth ddyddiol ac yn trafod y prif faterion yn briodol yn ystod cyfarfodydd tîm wythnosol. Mae arweinwyr yn ymgynghori â rhieni yn ffurfiol ac yn anffurfiol, gan roi cyfleoedd da iddynt gyfrannu eu safbwyntiau. Gwnânt ddefnydd da o gyngor buddiol gan athro ymgynghorol yr awdurdod lleol ac maent yn ymateb yn brydlon i awgrymiadau sy'n cael eu gwneud. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn gwella'r cyfleoedd a gynigir i'r plant yn gyson.

Mae arweinwyr yn cynnal adolygiad blynyddol trylwyr iawn sy'n nodi meysydd i'w datblygu yn llwyddiannus. Mae hyn yn eu galluogi i osod targedau defnyddiol i wella ar gyfer y flwyddyn nesaf. Maent wedi rhoi cynllun datblygu effeithiol ar waith sydd wedi arwain at gynnydd mewn meysydd fel gwella cyfleoedd i blant ymarfer eu medrau creu marciau. Mae'r cynllun yn cynnwys pwyslais defnyddiol ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant, sy'n flaenoriaethau cenedlaethol.

Caiff y pwyllgor rheoli ei hysbysu'n dda am gynnydd y lleoliad ac mae'n cefnogi'r lleoliad yn dda.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae ystod ddefnyddiol o bartneriaethau yn cefnogi cynnydd a lles plant yn effeithiol.

Ceir partneriaeth agos â rhieni a gofalwyr. Mae ymarferwyr yn mynd ati i annog rhieni a gofalwyr i deimlo eu bod yn cael croeso a'u gweld yn ofalgar a chefnogol; er enghraifft, mae'r lleoliad yn gwahodd rhieni i fore coffi yn yr hydref i drafod cynnydd eu plentyn a 'chwarae' ochr yn ochr â'u plentyn. Mae rhieni a gofalwyr yn gefnogol i'r lleoliad. Maent yn codi arian ac yn defnyddio'u harbenigedd i gyfoethogi profiadau dysgu plant yn briodol, er enghraifft trwy ddarparu sesiynau ffitrwydd corfforol.

Mae partneriaeth werthfawr rhwng y lleoliad a'i ysgolion cynradd lleol. Mae plant yn ymweld â'u hysgolion cynradd lleol yn rheolaidd ar gyfer digwyddiadau arbennig ac mae staff ysgol yn ymweld â'r lleoliad. Mae'r trefniadau pontio ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn llwyddiannus iawn. O ganlyniad, caiff plant eu paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf mewn addysg.

Mae perthynas adeiladol ag athro ymgynghorol yr awdurdod lleol a swyddog datblygu Mudiad Meithrin yn gwella gwaith y lleoliad yn dda; er enghraifft, fe wnaeth y lleoliad gynyddu'r cyfleoedd i blant ddatblygu eu hannibyniaeth amser byrbryd yn dilyn cyngor gan yr athro ymgynghorol.

Ceir cysylltiadau partneriaeth addas â'r gymuned leol. Mae defnyddio'r coetir lleol, er enghraifft, wedi gwella'r cyfleoedd i blant ddysgu yn yr awyr agored.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r rheolwr a’r pwyllgor rheoli yn sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr sydd â chymwysterau addas ac adnoddau i gefnogi dysgu’r plant yn dda. Maent yn rheoli’r ymarferwyr yn briodol ac yn rhoi cyfleoedd addas iddynt ar gyfer rheoli perfformiad. O ganlyniad, mae pob un o’r ymarferwyr yn manteisio ar hyfforddiant addas sy’n bodloni eu hanghenion datblygu yn briodol. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da o hyfforddiant i wella ansawdd eu haddysgu a’r profiadau dysgu y maent yn eu cynnig i blant. Er enghraifft, mae’r dirprwy arweinydd yn datblygu medrau ymarferwyr mewn holi cwestiynau mwy penagored o ganlyniad i fynychu cwrs yn ddiweddar.

Mae arweinydd y lleoliad yn defnyddio ymarferwyr yn effeithiol ac mae’n eu hannog i gymryd cyfrifoldeb am ddarparu adnoddau a chefnogi meysydd dysgu. Mae’r rheolwr a’r arweinydd yn hynod lwyddiannus o ran delio â’r ffaith nad oes ardal chwarae addas yn yr awyr agored. Er enghraifft, pan fydd y tywydd yn caniatáu, mae ymarferwyr yn cynnal sesiynau gweithgarwch corfforol wythnosol ac yn defnyddio’r cae a’r coetir lleol i ddarparu profiadau nad oes modd eu darparu yn eu hardal bresennol yn yr awyr agored.

Mae gan arweinwyr a rheolwyr ddealltwriaeth briodol o’u cyllideb ac mae diben addysgol clir i flaenoriaethau gwariant.

Yng ngoleuni’r deilliannau a gyflawnir gan blant, mae’r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Yr Arolygydd Cofnodol

| | |
|---|---|
| Sheila Margaret Birkhead | Arolygydd Cofnodol |
| Beverley Jenkins | Tîm Arolygu |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru elwa ar wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |